Hysbyseb i Gwsmeriaid Tŷ'r Cwmnïau

Ffordd y Goron Caerdydd
CF14 3UZ
Ffôn 0870 33 33 636
Ffacs 029 20380517
DX 33050
www.companieshouse.gov.uk

Ein Cyf
Dyddiad 6ed Tachwedd 2000

Annwyl Gwsmeriaid,

NEWIDIADAU WRTH ANFON FFURFLENNI STATUDOL

Rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn rhoi gwybod am newid yn y gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â cheisiadau am anfon ffurflenni Tŷ'r Cwmnïau.

Fel y gwyddoch, ers rhai blynyddoedd rydym wedi bod yn ateb ceisiadau cwsmeriaid am archebion mawr o ffurflenni statudol Tŷ'r Cwmnïau drwy gyfrwng y cyfleuster archebu ar Wefan Tŷ'r Cwmnïau neu drwy ffonio neu e-bostio ceisiadau i'n Canolfan Gysylltu.

Rydym wedi penderfynu tynnu'r cyfleuster hwn yn ôl am nad yw'n gost-effeithiol cynhyrchu, cadw ac anfon cymaint o bapur erbyn hyn. Caiff y cyfleuster ei dynnu'n ôl o 4 Rhagfyr 2006 ymlaen. Tan y dyddiad hwnnw, stoc gyfyngedig o ffurflenni fydd ar gael gan Dŷ'r Cwmnïau. Oherwydd hynny, mae cyfyngiadau wedi'u cyflwyno ar faint o ffurflenni a all gael eu hanfon am bob archeb.

Rydym yn argymell yn gryf y dylai'r cwsmeriaid ffeilio gwybodaeth gyda ni yn electronig lle bo modd. Mae'n gwasanaeth GweFfeilio yn cynnig i chi a'ch cwsmeriaid ddewis gwell yn lle'n ffurflenni mwyaf cyffredin, gan gynnwys newid cyfeiriad, newid manylion cyfarwyddwyr, newid dyddiad cyfeirnod cyfrifeg a chyfrifon cwmnïau segur. Mae GweFfeilio yn cynnig cyflymder, hwylustod, gwarant bod ffurflenni'n cyrraedd a'r sicrwydd sy'n dod o gael cyfrinair electronig.

Bydd ffurflenni Tŷ'r Cwmnïau yn dal ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein Gwefan (www.companieshouse.gov.uk).

Rydym yn sylweddoli y bydd yna amgylchiadau pan na fydd gan gwsmeriaid y gallu naill ai i lawrlwytho ffurflenni oddi ar ein gwefan neu i'w ffeilio ar-lein drwy'n gwasanaeth GweFfeilio. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd gan y cwsmeriaid y dewis o archebu copïau unigol o ffurflenni drwy gyfrwng y Ganolfan Gysylltu ar 0870 33 33 636.

Yn gywir,

Tom Smith
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cwsmeriaid